Rhifyn 127 1150 copi pob rhifyn – 1150 copies every issue Edition 127

CLECS BRO CADER

Cylchlythyr cymunedol ar gyfer ardal Pencader sy'n cynnwys

www.pencader.org.uk

A community newsletter for the Pencader area including

Alltwalis, Dolgran, Gwyddgrug, Llanfihangel-ar-Arth, New Inn, Pont Tyweli, Llanllwni

Hydref 2024 AM DDIM – FREE October 2024



Cwtsh Natur

Dewch draw i Yr Ardd, Pont-Tyweli lle mae Menter Gorllewin Sir Gâr, Cered a Clinig Bach y Wlad yn cynnal y Cwtsh Natur misol a chewch chi gyfle i gymdeithasu, creu, cloncan, gwneud bach o arddio gyda dished poeth a cacen ffein yn aros amdanoch chi! Cynhelir y sesiwn nesaf am 10am-12pm ar 12fed Hydref 2024. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Llinos Halgarth ar llinos.cbw@gmail.com.

Nature Cwtsh

Come over to Yr Ardd, the community garden at Pont-Tyweli where Menter Gorllewin Sir Gâr, Cered and Clinig Bach y Wlad run the monthly Cwtsh Natur, which offers an opportunity to socialise, create, chat and do a bit of gardening as well, and we'll have a hot cuppa some delicious cake waiting for you! The next session will be at 10am-12pm on 12th October 2024. For more information, please contact Llinos Halgarth ar llinos.cbw@gmail.com.

Mae rhifyn hwn y cylchlythyr wedi cael ei ariannu gan grant oddi wrth
Gronfa Fudd Fferm Wynt Statkraft Alltwalis

This issue of the newsletter has been funded by a grant from
Statkraft Alltwalis Community Benefit Fund

Swyddogion Clecs Bro Cader		Clecs Bro Cader Officials
Tîm Golygyddol / Editorial Team	Jane Griffiths	janegriffithsuk@btinternet.com
	Morgan Jones	morganjgibson@gmail.com
	Keith Pratt	pdrg@ffermffynnonwen.plus.com

Plus a little help from Steve Adams

Cynnwys	*Tudalen / Page*	*Index*
Cwtsh Natur	*1*	*Nature Cwtsh*
Ffair Haf A Sioe Cwn	*3-4*	*Summer Fete and Dog Show*
Ysgol Eglwys Llanllwni	*5-6*	*Llanllwni Church School*
Llongyfarchiadau	*6*	*Congratulations*
Cylch Meithrin Llanllwni	*7*	*Llanllwni Cylch Meithrin*
Nodiadau'r Natur	*8*	*Nature Notes*
Cadwyn Yn Dathlu Hanner Cant	*9*	*Cadwyn Celebrates Fifty Years*
Clwb Hanes Llanfihangel-ar-Arth	*10*	*Llanfihangel-ar-Arth History Club*
CFfI Llanllwni	*11-12*	*Llanllwni YFC*
Stampiau wedi eu defnyddio	*12*	*Used Postage Stamps*
Sefydliad y Merched Pencader	*13-14*	*Pencader Women's Institute*
Newyddion Alltwalis	*14*	*Alltwalis Village News*
Cyfraddau Hysbysebu	*14*	*Advertising Rates*
Merched Glannau Teifi	*15-16*	*Merched Glannau Teifi*
Ceisiadau Cynllunio	*16*	*Planning Applications*
Merched y Wawr Pencader a'r Cylch	*17*	*Merched y Wawr Pencader a'r Cylch*
Amserlenni eglwysi a chapeli	*18-19*	*Church and chapel timetables*
Coda Ni	*18*	*Coda Ni*
Canolfan Deuluol Pencader	*20*	*Pencader Family Centre*
Parti Calan Gaeaf	*21*	*Hallowe'en Party*
Ysgol Sul Eglwys Llanllwni	*22*	*Llanllwni Sunday School*
Cronfa Cymunedol Fferm Wynt Statkraft	*26*	*Statkraft Wind Farm Community Fund*
Hysbysebion	*23-32*	*Advertisements*

Cyhoeddir y cylchlythyr hwn gan Grŵp Adfywiad Pencader a'r Cylch ac fe'i hargraffir gan Gwasg Gomer, Llandysul. Cymerir pob gofal i sicrhau fod cynnwys y cylchlythyr yn gywir ond ni allwn fod yn gyfrifol am unrhyw effaith fel canlyniad i unrhyw gamgymeriad.

Sylwch, plîs, mai'r barnau sy'n cael eu mynegi yma, yw rheiny'r awduron unigol ac nid o raid tîm Golygyddol neu'r rheiny'r Grŵp Adfywiad.

Anfonwch eich newyddion, erthyglau ac yn y blaen i:

janegriffithsuk@btinternet.com

erbyn **12fed** o'r mis cyn cyhoeddi.

Dyddiadau cyhoeddi 2024: Rhagfyr

This newsletter is published by the Pencader and District Regeneration Group and printed by Gomer Press, Llandysul. We take care to ensure that the contents are correct as we cannot be liable for any consequences as a result of any mistake.

Please note that the opinions expressed here are those of the individual authors and not necessarily those of the editorial team or the Regeneration Group.

Please send contributions and comments to:

janegriffithsuk@btinternet.com

by the **12th** of the month before publication.

Publication dates for 2024: December

Pafiliwn Cymunedol Pencader
Ffair Haf A Sioe Cwn

Codais o'r gwely ac edrych allan y ffenestr a chefais fy nghyfarch gan wynt a glaw.

Gwych ar gyfer ffair haf!!!!

Roedd y Pafiliwn dan orchudd o gwmwl llwyd, ond yn ddiymgeledd fe osodon ni'r gasebos, gosod allan yr ardal sioe gŵn, byrddau a chadeiriau ac yna os trwy hud roedd yr haul yn tywynnu arnom ni am weddill y prynhawn.

Roedd sioe gŵn a ffair Pencader ar agor yn swyddogol. Darparodd SyM y cacennau a'r baned mwyaf hyfryd ar gyfer egwyl haeddiannol ond os oeddech eisiau rhywbeth ychydig yn gryfach yna roedd y bar ychydig gamau i ffwrdd.



Roedd ein fersiwn ein hunain o Crufts yn llwyddiant ysgubol gyda llawer o'n hoff ffrindiau yn cystadlu am y rhosod chwenychedig, ci blewog, cynffon mwyaf siglog a'r ast harddaf i enwi ond ychydig.

Roedd y maes hefyd wedi'i addurno gan nifer o stondinwyr yn gwerthu amrywiaeth eang o ddanteithion, o ddanteithion cŵn, gemwaith, i ddanteithion wedi'u gwau a melysion hen ffasiwn.

Roedd digonedd o fyrgyrs, losin, afalau a thoesenni, byrbryd gwych ar ôl sesiwn ar y sleid neidio!!

Bu cystadlu brwd yn y gystadleuaeth cacennau ond yn anffodus nid oedd cymaint o geisiadau ag y byddem wedi dymuno ond efallai y flwyddyn nesaf……..

'Roedd yr ymylon gyda gemau, Enwi'r Tedi , Tombola , Hoopla a raffl yn cael eu cadw'n brysur .

Yna yn union fel hynny - roedd drosodd. Diwrnod blinedig i bawb, ond un pleserus.

Felly diolch o galon i'r holl wirfoddolwyr a helpodd i sefydlu a thynnu popeth i lawr.

I Sefydliad y Merched am y llif o de a chacennau

Roedd y stondinwyr yn enwedig Ditsy Daffodil yn help mawr.

Y gwirfoddolwyr oedd yn rhedeg y sioeau ochr.

Y staff bar hardd.

Pencader Community Pavilion
Summer Fete And Dog Show

I got out of bed and looked out the window and was greeted with wind and rain.

Great for a summer fayre!!!!

The Pavilion was shrouded in a grey cloud, but undeterred we put up the gazebos, set out the dog show area,tables and chairs and then if by magic the sun shone down on us for the rest of the afternoon.

The Pencader dog show and fete was officially open.

The WI supplied the most gorgeous cakes and cuppa for a well-deserved break but if you wanted something a bit stronger then the bar was just a few steps away.

Our own version of Crufts was a great success with lots of our favourite friends competing for the coveted rosettes. shaggiest dog, waggiest tail and prettiest bitch to name a few.

The field was also graced by a number of stall holders selling a wide range of goodies from dog treats, jewellery, knitted goodies and old fashioned sweets.

Burgers, sweets, apples and doughnuts were aplenty, a great snack after a session on the bouncy slide!!

The cake competition was fiercely fought but unfortunately there were not as many entries as we would have liked but maybe next year……..

The side stands with games, Name the Teddy, Tombola, Hoopla and raffle were kept busy.

Then just like that - it was over. An exhausting day for all, but an enjoyable one.

So a heartfelt thank you to all the volunteers who helped set up and take down everything.

To the WI for the flow of tea and cake.

The stall holders especially Ditsy Daffodil who were a great help.

The volunteers who ran the side shows.

The beautiful bar staff.

Pafiliwn Cymunedol Pencader
Ffair Haf A Sioe Cwn

Ac yn olaf, diolch i bob un ohonoch a fynychodd ac a helpodd i'w wneud yn brynhawn gwych. Gwyliwch allan am y flwyddyn nesaf wrth i ni dyfu a gwella.

Digwyddiadau eraill i ddod yn y Pafiliwn:

Parti Calan Gaeaf i Blant 31ain Hydref

Noson gwis gyda bar a bingo Tachwedd 15ed

Ffair Nadolig Tachwedd 30ain

Gobeithio eich gweld chi i gyd yn un os nad y digwyddiadau i gyd.

Pencader Community Pavilion
Summer Fete And Dog Show

And finally, a thank you to all of you who attended and helped to make it a great afternoon.

Watch out for next year as we get bigger and better.

Other events coming at the Pavilion:


Children's Halloween party 31st October

Quiz night with bar and bingo 15th November

Christmas Fayre 30th November

Hope to see you all at one if not all the events.









Ysgol Eglwys Llanllwni

Croeso mawr i Elis ac Ifan i ddosbarth Nonni. Mae'r ddau yn mwynhau gyda'i ffrindiau newydd. Diolchwn i Miss Lisa Thomas, Cynorthwy-ydd Addysgu, am ei gwaith caled yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen, a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Yn nosbarth Cyfnod Allweddol 2, y thema ydy Chwyldro y Cymry. Byddwn yn dysgu ac astudio am Ferched Beca. Yn ogystal byddwn yn astudio bywyd pobl yn ystod yr Oes Fictoria. Byddwn yn trafod anghydraddoldeb cymdeithasol ac yn edrych ar y gwahaniaethau rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Byddwn yn darllen ac yn astudio'r nofel 'A Christmas Carol' gan Charles Dickens.

Yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen, y thema ydy 'Cymru'. Mae'r disgyblion yn brysur yn dysgu am gestyll a chwedlau Cymru. Edrychwn ymlaen at nifer o weithgareddau sydd wedi eu trefnu.

Ar yr un diwrnod a'i angladd, 12fed o Fedi, cawsom ddiwrnod o wisgo lliwiau Cymru, coch, gwyn a gwyrdd, i ddathlu bywyd Dewi Pws. Treuliodd y disgyblion y diwrnod yn gwrando ar ei ganeuon a dysgu am yr arwr Cymreig.

Llanllwni Church School

A big welcome to Elis and Ifan who have joined Nonni class this term. They are both enjoying with their new friends. We thank Miss Lisa Thomas, Teaching Assistant, for all her hard work in the Foundation Phase class and we wish her well in her new job.

In the Key Stage 2 class, the theme this term is the Welsh Revolution. We will be learning about the Rebecca Riots. Also, we will be studying the life of people during the Victorian Era. We will be discussing social inequality and looking at the differences between the rich and the poor. We will be reading and studying the novel 'A Christmas Carol' by Charles Dickens.

In the Foundation Phase class, the theme is 'Wales'. The pupils are busy learning about Welsh castles and legends. We look forward to all the activities planned for this term.

On the same day as his funeral, 12th September, we held a day of wearing red, white and green, the colours of Wales, to celebrate the life of Dewi Pws. The pupils spent the day listening to his songs and learning about the Welsh legend.



Ysgol Eglwys Llanllwni

Mae dosbarth y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn cyllid o Gronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Alltwalis Statkraft i ddarparu cwrs diogelwch dŵr unigryw am ddeg wythnos yng Nghalon Tysul. Mae'r disgyblion wedi bod yn mynychu sesiynau nofio ac ymarfer corff pob prynhawn dydd Gwener yng Nghanolfan Hamdden Calon Tysul. Mae'r sesiynau nofio yn canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr a sgiliau nofio. Diolch i Statkraft am ariannu'r prosiect gwerthfawr hwn. Mae pawb yn mwynhau'r sesiynau yn fawr!

Cynhaliwyd prynhawn coffi Macmillan yn Ysgol Llanllwni ar ddydd Gwener, 27ain o Fedi. Roedd hi'n hyfryd i weld pawb a galwodd mewn i gael paned, cacen a chlonc!

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r achos.

Dymunwn yn dda i'r saith disgybl sydd wedi dechrau yn eu hysgolion uwchradd.

Pob lwc i chi gyd!

Llanllwni Church School

The Foundation Phase class has been very fortunate to receive funding from the Statkraft Alltwalis Wind Farm Community Benefit Fund to provide a ten-week unique water safety course at Calon Tysul. The pupils have been attending swimming and P.E. sessions every Friday afternoon at Calon Tysul Leisure Centre. The swimming sessions focus on developing awareness of water safety and swimming skills. Thank you to Statkraft for funding this invaluable project. Everyone is really enjoying the sessions!

We held a Macmillan coffee afternoon at Llanllwni School on Friday, 27th of September. It was lovely to see everyone pop in for a cuppa, cake and chat!

Thank you to everyone who came to support the cause.

We wish all the best to the seven pupils who have started in their secondary schools this term.

Good luck to you all!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Celyn Davies, Llandyfrïog am ennill cystadleuaeth yr Unawd Llefaru dan 12 yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ym Mhontypridd yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Celyn Davies, Llandyfrïog am ennill cystadleuaeth yr Unawd Llefaru dan 12 yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ym Mhontypridd yn ddiweddar.

Mae'r ddau yn wyron i Glyn Jones, Glantweli Fach, Pencader.




Congratulations

Huge congratulations to Celyn Davies of Llandyfriog on winning the reciting competition for under 12 at the National Eisteddfod at Pontypridd beginning of August.

Also, congratulations to her brother on playing the leading part as Charlie in the Summer show 'Charlie and the Chocolate Factory' at the Arts Centre Aberystwyth throughout the month of August 2024.

They are the grandchildren of Glyn Jones, Glantweli Fach, Pencader.



Cylch Meithrin Llanllwni

Gobeithio bod pawb wedi mwynhau'r gwyliau haf! Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd newydd.

Ein thema y tymor hwn ydy 'Fi'. Mae'r plant yn brysur yn dysgu a chanu am eu corff, teuluoedd a bwyta'n iach. Hefyd, rydym yn gwneud gwaith ar y Cynhaeaf (Diolchgarwch). Edrychwn ymlaen at nifer o weithgareddau sydd i ddod dros yr Hydref.

Byddwn yn cynnal ein parti Calan Gaeaf yn Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau ar ddydd Llun, 29ain o Hydref am 3.30 tan 5.30yh. Croeso cynnes i bawb. Bydd nifer o weithgareddau i'w wneud megis, gemau, crefft, disgo, cystadleuaeth cerfio pwmpen, twba lwcus, cwn poeth, llwybr arswydus a llawer mwy!

Yn ogystal â Gofal Plant Di-Dreth a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, mae Cylch Meithrin Llanllwni wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg gyda Sir Gâr. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen a ariannir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant rhwng 0 a 3 ac 11 mis a'u teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd penodol yn Sir Gaerfyrddin, a ddiffinnir gan côd post. Os hoffech mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r arweinydd ar y manylion cyswllt isod.

Mae Cylch Meithrin Llanllwni ar safle Ysgol Eglwys Llanllwni. Mae'r Cylch Meithrin ar agor ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener o 8.45yb tan 12.15yp, ac ar ddydd Mercher, mae'r Cylch ar agor o 8.45yb tan 3yp. Mae'n rhoi cyfle i blant 2-4 oed ddysgu a chwarae o fewn awyrgylch hapus. Y tâl am bob sesiwn yw £11 y plentyn ar y diwrnodau mae'r Cylch ar agor yn y bore, ac yna £26 y plentyn ar ddydd Mercher pan mae'r Cylch ar agor trwy'r dydd.

Cylch Ti A Fi Llanllwni

Mae Cylch Ti a Fi yn cael ei gynnal pob dydd Gwener yn Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau. Mae yna nifer o weithgareddau yn cael eu trefnu pob wythnos. Edrychwch ar dudalen Facebook y Cylch Ti a Fi am fanylion o'r hyn sydd ymlaen. Os hoffech mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r arweinydd, Miss Nerys Thomas, ar 01559 395624. Diolch.

Llanllwni Cylch Meithrin

We hope everyone enjoyed the summer holidays! We are looking forward to the new academic year.

Our theme this term is 'Myself'. The children are busy learning and singing about their bodies, families and healthy eating. Also, we are creating work on the Harvest (Thanksgiving). We look forward to a number of activities planned over the Autumn term.

We will be holding our Halloween party in the Church Hall, Maesycrugiau on Monday, 29th of October from 3.30 to 5.30pm. A warm welcome to all. There will be many activities to do such as, games, craft, disco, pumpkin carving competition, lucky dip, hot dogs, spooky trail and much more!

In addition to Tax-Free Childcare and the Childcare Offer for Wales, Llanllwni Cylch Meithrin is registered for the Flying Start program with Carmarthenshire. Flying Start is a program funded by the Welsh Government for children between 0 and 3 to 11 months and their families who live in specific areas of Carmarthenshire, defined by postcode. If you would like more information, please contact the leader on the contact details below.

Llanllwni Cylch Meithrin is on the site of Llanllwni School. The Cylch Meithrin is open on Mondays, Tuesdays, Thursdays and Fridays from 8.45am to 12.15pm, and on Wednesdays, the Cylch is open from 8.45am to 3pm. It gives children aged 2-4 the opportunity to learn and play in a happy atmosphere. The charge for each session is £11 per child on the days the Cylch is open in the morning, and then £26 per child on Wednesdays when the Cylch is open all day.

Llanllwni Cylch Ti A Fi

Cylch Ti a Fi is held every Friday in the Church Room, Maesycrugiau. There are a number of activities organised each week. Keep an eye on the Cylch Ti a Fi Facebook page for details of what's going on. If you would like more information, please contact the leader, Miss Nerys Thomas, on 01559 395624. Thank you.

Nodiadau Natur

Rwy'n eistedd yn edrych allan ar fy ngardd y bore 'ma, coffi mewn llaw a chyda bysedd traed oer ar ôl bod â'm cŵn am dro. Roedd hi'n 3°C dros nos er taw dim ond ar ddechrau'r hydref ydyn ni!

Fodd bynnag, dyma fy hoff amser o'r flwyddyn – mae dechrau mis Medi yn aml yn llonydd, yn glir ac yn heulog. Dydy eleni ddim yn eithriad. Rwyf wrth fy modd yn codi'n gynnar ac yn eistedd yn yr ardd gan deimlo'r oerfel yn yr awyr ac yn myfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd yno ers y Gwanwyn.

Rydym wedi cael blwyddyn gynhyrchiol – wedi tyfu llawer o salad, cennin, tomatos, ciwcymbrau a courgettes, ac mae wedi bod yn bleser cynaeafu a bwyta'r rhain! Yn yr ardd rydyn ni'n croesawu gwenoliaid y bondo – mae'r ail nythaid ar hyn o bryd yn swatio yn y blwch nythu rydyn ni'n ei roi i fyny ar y tŷ yn paratoi i hedfan - gwenoliaid duon, colomennod coler, titw tomos las, dryw, delor y cnau, cnocell y coed, tylluanod, gwalch glas , titw mawr, llinos aur, llinos werdd a llawer iawn o adar y to! Daeth cacwn, gwenyn mêl, pryfed hofran a gwenyn meirch, yn ogystal â gloÿnnod byw a gwyfynod. Mae croeso mawr iddyn nhw i gyd, ac mae'n bleser cael yr holl ymwelwyr hyn yn ein gardd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt!



Rydyn ni hefyd wedi gosod y clawdd, sy'n edrych yn wych ar ôl blwyddyn o dyfiant, ac erbyn hyn mae gennym bedair coeden afalau'n tyfu'n gyflym (ac ychydig o afalau), a gardd flaen newydd rydyn ni'n ei mwynhau'n fawr.

Wrth i'r tywydd newid, mae fy meddwl yn troi at y gaeaf a sut y gallaf ddarparu bwyd a lloches i fywyd gwyllt yn ystod y tymor mwyaf heriol iddyn nhw.



Ni fydd ein gwrych yn cael ei dorri tan fis Ionawr fel y gall bywyd gwyllt fwyta aeron y ddraenen wen, cnau cyll ac aeron gwyddfid sydd ynddo. Caiff ei ddefnyddio fel lle i aeafgysgu a chadw'n gynnes a sych dros y gaeaf. Byddwn yn gadael pennau hadau, gan gynnwys lovage, pengaled a blodau'r haul, ymlaen tan y Gwanwyn, am yr un rheswm.

Os oes gennych chi wrychoedd i'w torri, boed yn eich gardd neu ar eich tir, ystyriwch eu gadael heb eu torri am rai dyddiau, wythnos neu hyd yn oed yn hirach nag arfer os gallwch chi i ddarparu'r bwyd a chysgod y mae nawr eu hangen ar fyd natur yn ystod y gaeaf hwn.

Morgan Jones

Nature Notes

I am sitting looking out at my garden this morning, coffee in hand, with chilly toes from my dog walk. It was 3°C overnight, and we're only at the start of Autumn!

However, this is my favourite time of year – the start of September is often still, clear and sunny, and this year is no exception. I love getting up early and sitting in the garden, feeling the chill in the air and reflect on what has happened in the garden since Spring.

We've had a productive year – we've grown lots of salad, leeks, tomatoes, cucumbers and courgettes, and it has been a joy to harvest and eat these! In the garden we've welcome house martins – the second brood are currently snuggled up in the nestbox we put up on the house, getting ready to fly – swifts, collared doves, blue tits, wrens, nuthatches, woodpeckers, owls, a sparrowhawk, great tits, goldfinches, greenfinches and a huge amount of house sparrows! There have been bumblebees, honeybees, hoverflies and wasps, as well as butterflies and moths. They are all very welcome, and it is a pleasure to have all these visitors in our wildlife friendly garden!

We've also laid the hedge, which is looking fantastic after a year of growth, now have four apple trees growing fast (and a few apples), and a new front garden we're really enjoying.

As the weather changes, my thoughts turn to winter and how I can provide food and shelter for wildlife during the most challenging season for them. Our hedge won't be cut until January so that wildlife can eat the hawthorn berries, hazelnuts and honeysuckle berries in it, and use it as a place to hibernate and keep warm and dry(ish) over winter. We'll leave seed heads, including lovage, knapweed and sunflowers, on until spring for the same reason.

If you have hedges to cut, whether in your garden or on your land, consider leaving them uncut a few days, a week or even longer than normal if you can to provide much needed food and shelter for nature this winter.

Morgan Jones

Cadwyn Yn Dathlu Hanner Cant

Eleni mae'r cwmni lleol Cadwyn Cyf o L anfihangel-ar-arth yn dathlu hanner canrif o hyrwyddo crefftau Cymreig a gwerthu nwyddau masnach deg. Sefydlwyd y busnes yn 1973 gan Ffred a Meinir Ffransis, gan ddechrau'n y Cwch Gwenyn yn Llangadog cyn symud i Ddolwerdd yn Llanfihangel-ar-arth. Cadwyn oedd y stondin gyntaf i werthu nwyddau yn Eisteddfod yr Urdd a hynny yn Y Rhyl yn 1974 a roedd eu hail Eisteddfod yn un lleol yng Nghaerfyrddin yr un flwyddyn.



Nod Cadwyn yn wreiddiol oedd rhoi llwyfan i grefftwyr o Gymru werthu eu cynnyrch, er mwyn cefnogi economi cefn gwlad Cymru a thrwy hynny yr iaith Gymraeg.

Ychwanegodd Cadwyn dros y blynyddoedd nwyddau wedi'i personoli a daeth llosgi enwau Cymraeg ar eitemau pren a lledr yn rhan greiddiol o'r busnes – sawl un ohonoch sydd wedi cael breichled lledr gyda'ch enw yn yr Eisteddfod? Neu plat pren yn dathlu buddugoliaeth mewn cystadleuaeth?

Dechreuodd Cadwyn feithrin perthynas â chrefftwyr yn Affrica yn yr 80au, gan fasnachu yn deg gyda chrefftwyr o wledydd fel Moroco, Burkina Faso, a Niger. Mae'r syniad o fasnach deg yn sail gadarn i'w gwaith – gyda'r nod o drin crefftwyr gyda pharch a sicrhau bod y prisiau'n deg i bawb.

Ar ôl hanner canrif, mae Cadwyn wedi parhau i dyfu ac addasu i'r oes ddigidol gan elwa'n sylweddol o gynyddu eu presenoldeb ar-lein.



Mae'r awenau bellach yn nwylo Sioned Elin, Hedd Gwynfor, Siriol Teifi a Rhys Hughes sy'n parhau â gweledigaeth Ffred a Meinir, gan sicrhau bod egwyddorion Cymreig, cymunedol a masnach deg y cwmni'n parhau'n ganolog i'w holl weithgareddau.

Mae'r busnes wedi newid llawer dros y degawdau, ond mae eu hegwyddorion yn parhau'n gryf ac yn gyson.

Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, cyflwynwyd gwobr arbennig i Cadwyn gan Wasanaethau Yswiriant FUW, Llambed, i nodi'r garreg filltir o 50 mlynedd mewn busnes. Wrth gyflwyno'r wobr, dywedodd Gwion James, Uwch Weithredwr FUW: "Llongyfarchiadau mawr i Cadwyn ar gyrraedd y garreg filltir nodedig hon. Rydym yn edmygu eu hymroddiad a'u dyfalbarhad i weithredu yn ôl eu gwerthoedd a'u hegwyddorion clodwiw cyhyd."

Cadwyn Celebrates Fifty Years

This year the local company Cadwyn Cyf from Llanfihangel-ar-arth is celebrating half a century of promoting Welsh crafts and selling fair trade goods. The business was founded in 1973 by Ffred and Meinir Ffransis, starting at the Cwch Bwenyn in Llangadog before moving to Ddolwerdd in Llanfihangel-ar-arth. Cadwyn was the first stall to sell goods at the Urdd Eisteddfod in Rhyl in 1974 and their second Eisteddfod was a local one in Carmarthen the same year.

Cadwyn's aim was originally to provide a platform for craftsmen from Wales to sell their products, in order to support the economy of the Welsh countryside and thereby the Welsh language. Cadwyn added personalized goods over the years and burning Welsh names on wooden and leather items became a core part of the business - how many of you have received a leather bracelet with your name at the Eisteddfod? Or a wooden plate celebrating a victory in a competition?

Cadwyn began building relationships with artisans in Africa in the 80s, trading fairly with artisans from countries such as Morocco, Burkina Faso, and Niger. The idea of fair trade is a solid basis for their work - with the aim of treating artisans with respect and ensuring that the prices are fair for everyone.

After half a century, Cadwyn has continued to grow and adapt to the digital age benefiting significantly from increasing their online presence.

The reins are now in the hands of Sioned Elin, Hedd Gwynfor, Siriol Teifi and Rhys Hughes who continue the vision of Ffred a Meinir, ensuring that the company's Welsh, community and fair trade principles remain central to all its activities.

The business has changed a lot over the decades, but their principles remain strong and consistent.

During this year's National Eisteddfod, a special award was presented to Cadwyn by FUW Insurance Services, Lampeter, to mark the milestone of 50 years in business. Presenting the award, Gwion James, Senior Executive of FUW, said: "Congratulations to Cadwyn on reaching this notable milestone. We admire their dedication and perseverance to act according to their values and their commendable principles for so long."

Clwb Hanes Llanfihangel-ar-Arth

Trip Blynyddol 2024

Roedd hi'n fore bendigedig o Fehefin wrth i wyth aelod o Glwb Hanes Llanfihangel-ar-arth adael y pentref a gwneud eu ffordd lawr i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (amgueddfa.cymru/abertawe), Abertawe. Mae'r amgueddfa'n adrodd hanes diwydiant ac arloesedd yng Nghymru.

Ar ôl coffi a chacen, cafodd yr aelodau sgwrs ragarweiniol am yr Amgueddfa a'i chefndir hanesyddol gan aelod o staff gydag awgrymiadau ar sut i ddilyn y llinellau amser hanesyddol gan ganolbwyntio ar rai o'r arddangosfeydd pwysig.

Gan fod ymweliad arall wedi'i drefnu ar gyfer y prynhawn a oedd o fewn pellter cerdded i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, cytunwyd ar amser ar gyfer cinio yn un o'r nifer o fwytai rhagorol sy'n edrych dros y Marina.

Mae Amgueddfa Abertawe (swanseamuseum.co.uk) bum munud yn unig ar droed o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac mae'n gartref i drysorfa hynod ddiddorol o hanes Abertawe. Rydym yn ddyledus i aelod o'n grŵp sef y Doctor John Davies a'n tywysodd o amgylch yr amgueddfa gan roi cipolwg gwerthfawr i ni ar hanes ddaearegol a chymdeithasol yr ardal gyfagos.



Roedd hi'n eithaf hwyr yn y dydd pan adawodd y criw Abertawe gan feddwl am bryd gyda'r nos ar y ffordd adref. Croesawyd rhagarcheb gan ein trefnydd trip Calvin Griffiths yn Nhafarn y Phoenix, Gorslas daeth diwrnod hynod o bleserus i ben…

Diolch Calvin…edrych ymlaen at daith y flwyddyn nesaf yn awr.

Cyfarfod nesaf y Clwb Hanes

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Clwb Hanes yn y Neuadd yr Ysgol, Llanfihangel-ar-arth (SA39 9JH) ar y 10fed o Hydref am 7.30pm. Ein bwriad yw cynnal noson o drafod er mwyn creu rhaglen ddiddorol am y flwyddyn, felly dewch a'ch syniadau am bynciau yr hoffech eu trafod, neu fanylion am siaradwyr gwadd.

Llanfihangel-ar-Arth History Club

Annual Trip 2024

It was a glorious June morning as eight members of the Llanfihangel-ar-arth History Club left the village and made their way down to the National Waterfront Museum (museum.wales/swansea), Swansea. The museum tells the story of industry and innovation in Wales.

After morning coffee and cake the members were given an introductory talk about the Museum and its historical background by a member of staff with suggestions on how to follow the historical timelines with a focus on some of the important exhibits.

As another visit had been arranged for the afternoon, which was within walking distance of the National Waterfront Museum. a time had been agreed for lunch at one of the many excellent restaurants overlooking the Marina.

The Swansea Museum (swanseamuseum.co.uk) is only a five-minute walk from the National Waterfront Museum and holds a fascinating treasure house of Swansea's history. We are indebted to a member of our group namely Doctor John Davies who guided us around the museum giving us a valuable insight into both the geological and social history of the surrounding area.

It was quite late in the day when the group left Swansea with thoughts of an evening meal on the way home. A pre-booking by our trip organiser Calvin Griffiths at Tafarn y Phoenix, Gorslas was most welcomed and finished off a most enjoyable day…

Diolch Calvin…looking forward to next year's trip now.

Next meeting of the History Club

The next meeting will be held at Neuadd yr Ysgol, Llanfihangel-ar-arth (SA39 9JH) on the 10thOctober at 7.30pm. Our intention is to hold an evening of discussion in order to create an interesting programme for the year, so bring your ideas about topics you would like to discuss, or details about guest speakers.

Sioe CFFI Llanllwni

Cafwyd diwrnod llwyddiannus ar Ddydd Llun Gŵyl y Banc yn Sioe C.Ff.I. Llanllwni ar gaeau Anwylfan, Llanfihangel ar Arth drwy garedigrwydd Mr a Mrs Griffiths a'r teulu. Rhennir yr elw eleni rhwng Canolfan Gancr De Orllewin Cymru ac Uned Ddydd Cemotherapi a Radiotherapi Singleton. Dau wyneb cyfarwydd oedd llywyddion y dydd sef Mr John a Mrs Anne Jones.

Roedd y cystadlu eisoes wedi dechrau cyn y diwrnod mawr gyda'r beirniad gwartheg, Arwel Thomas yn mynd o amgylch y ffermydd. Prynhawn y sioe, cyflwynodd ei resymau a'r canlyniadau. Yn adran y gwartheg bîff tarw Teulu Jones, Blaenblodau a ddyfarnwyd yn bencampwr. Ond y fuwch odro o eiddo Teulu Davies, Gwndwn cipiodd brif pencampwr yr adran eleni.

Cafwyd cystadlu brwd yn y babell ac ar y cae drwy gydol y dydd, o'r cynnyrch gardd i'r mabolgampau. Yn y sioe gŵn seren y sioe oedd Simba a arddangoswyd gan Gwion, Martha a Deio.

Yn yr adran ddefaid wedi prynhawn o feirniadu dyfarnwyd y bencampwriaeth i oen fenyw 'Mule' Geraint Evans, Pantycoebal. Anwen Jones a'i dafad Penfrith aeth a'r gul wobr. Roedd hefyd yn dda gweld Efa, Meilyr, Megan, Hana a Rhun yn cystadlu yng nghyadlaethau arddangoswyr ifanc.

Cafwyd hefyd arddangosfa gref o hen dractorau a cheir gyda'r cwpan yn mynd i Llyr Jones.

Yn adran y plant ac ieuenctid enillodd Edryd Gibbon, Megan Jones ac Einir George gwpanau am arddangosfa orau eu categori oedran.

Llanllwni YFC Show

A successful day was had at Llanllwni Y.F.C. Show on August Bank Holiday Monday at Anwylfan Fields, Llanfihangel ar Arth (by kind permission of Mr and Mrs Griffiths and family). The profits this year will be shared between the South West Wales Cancer Centre and Singleton Radiotherapy and Chemotherapy Day Unit. Two familiar faces were Presidents of the Day, Mr John and Mrs Anne Jones.

Competing had already begun prior to show day with the cattle section judge, Mr Arwel Thomas visiting the farms to view the cattle. He gave his reasons and placings on the afternoon of the show. In the Beef cattle section, the champion was awarded to the Jones Family, Blaenblodau's Bull. But the dairy cow from the Davies family, Gwndwn took the Supreme Champion in the section this year.

Strong competitions were had on the field and in the marquee throughout the day, from the garden produce to the sports. In the Dog Show the star of the show was Simba exhibited by Gwion, Martha and Deio.

In the sheep section after an afternoon of judging the champion was awarded to Geraint Evans, Pantycoebal's Mule ewe lamb. Anwen Jones and her Speckle Face ewe took reserve. It was also pleasing to see Efa, Meilyr, Megan, Hana and Rhun competing in the young handlers classes.

A number of vintage tractors and cars were also had with the cup going to Llyr Jones.

In the children's section Edryd Gibbon, Megan Jones and Einir George were each awarded a challenge cup for the best exhibit in their age category.



Sioe C.Ff.I. Llanllwni 2024- Pencampwr (oen Geraint Evans) ac is-bencampwr (dafad Anwen Jones) adran y defaid gyda'r ddau feirniad

Sioe CFFI Llanllwni

Cyflwynwyd cwpanau i enillwyr y nifer uchaf o bwyntiau yn eu hadrannau i'r canlynol:- Defaid Iseldir: Teulu Jones, Blaenblodau; Defaid Mynydd: Teulu Jones, High View; Gwartheg Bîff: Teulu Jones, Blaenwaun Ganol; Gwartheg Godro: Teulu Davies, Gwndwn; Llysiau: Geraint Thomas; Blodau: Janet Howells; Cynnyrch Fferm: Ken Howells; Coginio, Gwinoedd a Chyffeithiau: Caryl Jones; Crefft: Edwina Davies a Janice Jones; Ffotograffiaeth: Siriol Howells ac Alys Powell.

Yn y nos cafwyd llond bola o fochyn wedi ei rostio wrth ymgymryd a 'Bingo Boncyrs'. Tynnwyd y raffl fawr a Sion Roberts oedd yng ngofal yr ocsiwn.

Bu'n sioe lwyddiannus ac yn benllanw misoedd o waith gan swyddogion ac aelodau C.Ff.I. Llanllwni.

Llanllwni YFC Show

Challenge cups were awarded to the following for gaining the highest number of points in their section:- Lowland Sheep: Jones family, Blaenblodau; Hill Sheep: Jones Family, High View; Beef Cattle: Jones Family, Blaenwaun Ganol; Dairy Cattle: Davies Family, Gwndwn; Vegetables: Geraint Thomas; Flowers: Janet Howells; Farm Produce: Ken Howells; Cookery, Wines and Preserves: Caryl Jones; Craft: Edwina Davies and Janice Jones; Photography: Siriol Howells and Alys Powell.

In the evening there was a belly full of hog roast while tackling the 'Bonkers Bingo'. The grand raffle was drawn and Sion Roberts was in charge of the auction.

It was a successful show, a worthy culmination of months of hard work from the officers and members of Llanllwni Y.F.C.



Sioe C.Ff.I. Llanllwni 2024- Ennillwyr y Dydd

Stampiau wedi eu defnyddio

Mae Sefydliad Cenedlaethol y Deillion yn ailgylchu stampiau Prydeinig a Thramor. Gwerthir wrth bwsyau gan amlaf. Disgwylir derbyn £10 y kilo am stampiau Prydeinig a £15 am stampiau tramor.

Mae'r arian a dderbynnir yn cael ei wario ar gynorthwyo deillion a'r rhannol ddall. Didolir y stampiau Prydeinig a Thramor i bentyrrau gan adael tua 1cm ar amlen o amgylch pob stamp.

Mae 3kg o stampiau newydd gael eu hanfon, felly wnewch chi barhau i gadw stampiau os gwelwch yn dda. Os medrwch helpu, ewch a'ch stampiau at Garej Windy Corner neu gadewch nhw yn Glyncoch, Alltwalis.

Ffon: 01559 384499

Diolch *Frances Fuller*

Used Postage Stamps

The Royal National Institute for the Blind recycle used British and Foreign stamps. They are usually sold by weight; the British can be expected to sell for £10 per kilo and the foreign stamps for up to £15 per kilo. The money raised goes to help blind and partially sighted people. Stamps are sorted into piles of British and Foreign and it helps to leave about 1cm of envelope around each stamp.

A parcel with 3kg of stamps have just been sent off, so please continue to save your stamps.

If you can help, please take them to Windy Corner Garage or drop them off at Glyncoch, Alltwalis.

Tel: 01559 384499

Thank you *Frances Fuller*

Sefydliad y Merched Pencader

Ar 13eg Awst, roedden ni'n cwrdd yn Alltwalis Mason Coffee House i gael te hufen yr haf. Roedd prynhawn anffurfiol hyfryd gyda chacennau a the anhygoel. Mae Mason Coffee House yn cael ei rheoli gan ferch ac wyres ein cyn-aelod, Betty Hilliard. Roedden ni'n drist iawn i glywed ei bod hi wedi marw at 15fed Gorffennaf 2023, mymryn yn llai na ei chanfed pen-blwydd. Aelod gwerthfawr ein SyM oedd Betty, byddwn ni'n gweld ei heisiau'n fawr. Gadawodd hi ddwy erthygl yn ein harchif. Maen nhw wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mewn un erthygl mae hi'n egluro digwyddiad diddorol o'i hieuenctid (The Teapot), yn y llall, mae hi'n ysgrifennu am brofiad trawiadol yr Ail Ryfel Byd. Tasech chi eisiau darllen mwy am hyn, gallwch chi ymchwilio ar ein gwefan: https://pencaderwi.wordpress.com.

Ym mis Awst roedd gennym stondin cacennau yng Ngŵyl Pencader. Roedd e'n hyfryd cwrdd â chymaint o ffrindiau o'r pentref!

Ym mis Medi, aethon ni'n ôl i Archifau'r Sir yng Nghaerfyrddin ar gyfer yr aelodau sy ddim wedi cael cyfle yn 2022 a phobl oedd eisiau mynd eto. Es i ddim eleni felly bydda i'n dyfynnu o'r erthygl clecs mis Medi 2022: "Ymwelom ag Archifau newydd Caerfyrddin ym mis Medi. Cawsom ein tywys o amgylch yr adeilad. Fe'i hadeiladwyd i fod yn strwythur 'goddefol', gyda chyn lleied o wres â phosibl yn cael ei golli ac ôl troed carbon isel iawn. Mae'r archifau'n cynnwys dogfennau gan awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin presennol a gorffennol, yn ogystal ag ystadau preifat fel Cawdor, llawer o fusnesau lleol a chofnodion y Llysoedd a'r Heddlu. Mae seler yna gyda rheolaeth tymheredd i storio'r dogfennau arbennig sy'n hynod o werthfawr. Roeddem yn gallu edrych ar rai mapiau a dogfennau yn ymwneud ag ardal Pencader ac fe lwyddodd sawl aelod i nodi eu cartrefi eu hunain ar yr hen fapiau. Trodd allan i fod yn ymweliad diddorol iawn." Diolch i J.R. oedd yn ysgrifennu'r erthygl wreiddiol ar gyfer Clecs.

Os hoffech ymuno â ni dyma arolwg o ein cyfarfodydd nesaf:

1af Hydref, byddwn ni'n cwrdd am 2 y. p. ym Mhafiliwn i glywed Storïau Bywyd, gyda sawl aelod bydd yn dweud wrthon ni sut maen nhw wedi cyrraedd ble maen nhw.

5ed Tachwedd, byddwn ni'n cwrdd am 2 y. p. ym Mhafiliwn am ein cyfarfod cyffredinol.

3ydd Rhagfyr, byddwn ni'n cael ein cinio Nadolig traddodiadol.

➢

Pencader Women's Institute

